| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9 Ebrill 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cyng. Barbara Smith/Linda Atkin, Pennaeth Adnoddau Dynol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Linda Atkin, Pennaeth Adnoddau Dynol** |
| **Teitl:** | **Effeithlonrwydd y Gweithlu** |

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion yr arbedion sy'n ofynnol i gyflawni Effeithlonrwydd y Gweithlu a nodwyd yn y Gyllideb a'r broses a gynigir i weithredu'r arbedion hyn.

## 2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r trafodaethau gyda'r Undebau Llafur ar sut bydd Effeithlonrwydd y Gweithlu'n cael ei gyflawni bellach wedi dirwyn i ben ac mae'r Cyngor wedi llunio'i becyn terfynol ar sut gellir cyflawni'r rhain. Gofynnodd yr undebau llafur i'w haelodau fwrw pleidlais ynghylch y pecyn hwn rhwng 18 a 28 Chwefror ond nid oeddent yn argymell iddynt ei dderbyn. Roedd y nifer a ymddangosodd i bleidleisio'n isel ar ddim ond ychydig dros 20%.

O'r 20% a bleidleisiodd, gwrthododd 74% y cynnig.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Nifer y Gweithwyr (ac eithrio athrawon)** | | | 3664 | | | |
| **Cyfanswm Nifer aelodau'r Undeb** | | | 1806 | | | |
| | | | | | | |
| | **Cyfanswm y papurau a gyhoeddwyd** | **Nifer y papurau a ddychwelwyd** | **Derbyniwyd** | **Gwrthodwyd** | **Difethwyd** | **Nifer a ddaeth** |
| **Unsain** | 1524 | 317 | 82 | 232 | 3 | 20.80 |
| **GMB** | 180 | 34 | 6 | 28 | 0 | 18.89 |
| **Unite** | 102 | 19 | 6 | 13 | 0 | 18.63 |
| | **1806** | **370** | **94** | **273** | **3** | 20.32 |

Golyga hyn na all y Cyngor ddod i gytundeb gwirfoddol gyda'r gweithlu trwy'r Undebau Llafur i roi'r cynigion ar waith ac mae angen dull arall.

Bydd hyn yn golygu ymgynghori'n uniongyrchol â'r sawl yr effeithiwyd arnynt i gael eu cytundeb i'r newidiadau arfaethedig a rhoi rhybudd iddynt amrywio'u contract cyflogaeth

presennol. Os na ddeuir i gytundeb gyda'r unigolyn, bydd angen terfynu eu contract cyflogaeth presennol a chyhoeddi contract cyflogaeth newydd i'r unigolion hynny sy'n cynnwys yr amodau a thelerau diwygiedig.

Gan y bydd hyn yn effeithio ar 414 o ddefnyddwyr hanfodol ac o bosibl 3250 o ddefnyddwyr achlysurol, mae'n fater proffil uchel o bosibl ac felly dylai aelodau fod yn ymwybodol o'r cefndir gan gynnwys y trafodaethau helaeth a gynhaliwyd a'r rhesymau am gymryd y cam gweithredu hwn.

Trafodwyd hyn mewn Cabinet Anffurfiol ar 11 Mawrth 2013 a gefnogodd y ffordd arfaethedig ymlaen ond gofynnodd i'r awdurdod edrych i weld a ellid cymryd camau i leihau'r effaith ariannol ar y rhai sy'n cael cyflog is.

### 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor:

1. Yn nodi'r ymdrechion a wnaed i ddod i gytundeb gyda'r Undebau Llafur mewn perthynas ag effeithlonrwydd dynodedig y gweithlu.

2. Yn ailddatgan yr angen i gyflawni'r arbedion a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n deillio o'r effeithlonrwydd hyn.

3. Yn cymeradwyo'r mesurau a ddisgrifiwyd ym mharagraff 4 i gynorthwyo'r rhai sydd ar gyflog is.

4. Yn awdurdodi'r Prif Weithredwr i gyhoeddi rhybuddion y bydd amrywiadau i gontractau mewn perthynas â'r lwfans Defnyddiwr Car Hanfodol, Lwfans Aflonyddwch a Chyfnod Diogelu Tâl fel y gosodwyd ym mharagraff 4 yr adroddiad.

5. Yn awdurdodi'r Prif Weithredwr i gyhoeddi rhybuddion o ddiswyddiadau i'r gweithwyr hynny nad ydynt yn derbyn yr amrywiadau i'r contract y cyfeiriwyd atynt yn 4 uchod ynghyd â chynnig i ail-droi at yr amodau a thelerau amrywiol.

### 4. Manylion yr adroddiad.

Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae angen i bob Cyngor wneud gostyngiadau sylweddol yn y gyllideb ac mae'n rhaid iddynt roi cynlluniau ar waith i fodloni'r arbedion angenrheidiol. I Sir Ddinbych, mae hyn yn cyfrif i oddeutu £18m dros gyfnod o dair blynedd. Fel rhan o'r agenda effeithlonrwydd, nodwyd arbedion sy'n gwneud cyfanswm o £1.525m yn erbyn y gweithlu cyffredinol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Hanerwyd a gostyngwyd hyn i £762 mil yn dilyn hynny ym mis Mehefin 2012 gan y Prif Weithredwr i gydnabod y ffaith fod arbedion eraill wedi'u dynodi ac roedd nifer o ffactorau allanol a effeithiai hefyd ar gyflog staff fel yr adolygiad o gredydau treth; Budd-daliadau Plant; costau tanwydd etc. a chydnabuwyd bod llawer o staff yn mynd trwy drafferthion ariannol ar hyn o bryd.

Mae'r trafodaethau gyda'r undebau llafur wedi bod yn mynd rhagddynt ers bron i ddwy flynedd ar becyn o fesurau i ddiogelu gwasanaethau a swyddi.

| EFFEITHLONRWYDD | Angen | Cyflawn-wyd | Angen | Cyflawn-wyd | Angen | Cyflawn-wyd | Angen | Cyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 | | 2012/13 | | 2013/14 | | 2014/15 | |
| *Swm gwreiddiol a gyllidebwyd* | *£125,000* | | *£200,000* | | *£500,000* | | *£700,000* | |
| **Gofyniad llai Mehefin 2012** | **£62,500** | **£60,850** | **£200,000** | **£192,991** | **£200,000** | **£245,426** | **£300,000** | **£257,266** |
| | | | | | | | | |
| Defnyddio'r rheol teithio triphlyg a'r gost isaf | | £47,636 | | £47,636 | | | | |
| Adolygiad o'r lwfans defnyddiwr hanfodol a'i dynnu oddi ar Staff na lwyddodd i fodloni'r meini prawf | | £13,214 | | £145,355 | | | | |
| Tynnu Ymaith y lwfans defnyddiwr hanfodol a thalu 45c y filltir i bawb | | | | | | £245,426 | | £184,766 |
| Gostwng cyfnod y diogelwch i 12 mis | | | | | | | | £42,500 |
| Gostwng y cyfnod ad-dalu ar gyfer milltiroedd aflonyddwch i 12 mis | | | | | | | | £30,000 |

Cyflawnwyd £95 mil trwy newid y ffordd y gall gweithwyr hawlio milltiroedd busnes a thua £158 mil  o'r adolygiad o ddefnyddwyr car hanfodol, gan adael rhyw £510 mmil y mae angen ei gyflawni dros 2013/14 a 2014/15. Er mwyn cyflawni hyn, gwnaeth y Cyngor ei gynnig olaf i'r undebau llafur ym mis Tachwedd sef disodli'r swm un taliad i ddefnyddwyr hanfodol, cyflwyno cyfraddau milltiroedd Cyllid a Thollau EM i bawb, a gostwng y cyfnod ar gyfer diogelwch tâl ac aflonyddwch. Mae copi o hwn ynghlwm yn Atodiad A.

Mae tynnu'r swm un taliad i ddefnyddwyr hanfodol ynghyd â thalu am filltiroedd teithio busnes yn ôl cyfraddau Cyllid a Thollau EM yn gyson â'r camau a gymerwyd gan bob awdurdod arall yng Nghymru a bydd yn galluogi Sir Ddinbych i gyflawni'r arbedion angenrheidiol. Wrth reswm, mae pob awdurdod ar gam gwahanol yn y broses ond mae 16 awdurdod eisoes wedi tynnu'r lwfans defnyddiwr hanfodol yn ôl ac yn talu un gyfradd milltiroedd o 45c. Yng Ngogledd Cymru, mae Gwynedd, Conwy a Wrecsam wedi cyflawni hyn. Mae Ynys Môn wedi rhoi 90 diwrnod o rybudd i amrywio contractau'r gweithwyr, mae Sir y Fflint yn parhau i drafod y Statws Sengl ac mae hyn yn rhan o hynny.

Bydd Sir Ddinbych yn darparu ad-daliad teg a rhesymol ar ffurf cyfradd milltiroedd sy'n gymesur â lwfansau Cyllid a Thollau EM. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gwario oddeutu £1.2m ar filltiroedd busnes. Yn y Rhaglen Foderneiddio, ceir prosiectau parhaus i leihau teithio gan staff trwy weithio o gartref a gweithio hyblyg, defnyddio dyfeisiau symudol i symleiddio prosesau a lleihau'r teithio o gwmpas y sir. Mae'r Cyngor yn edrych hefyd ar nifer o fesurau i

helpu gweithwyr sy'n gorfod teithio o gwmpas y sir i ymgymryd â'u rôl, fel darparu Ceir Cronfa a'r gallu i fanteisio ar aberthu cyflog yn gyfnewid am ffioedd is ar geir prydles.

Ceir 414 o weithwyr sy'n ddefnyddwyr hanfodol ac sy'n cael taliad o £80.25 y mis (£963 y flwyddyn) ynghyd â chyfradd milltiroedd o 40.9c. Bwriad y cynigion, a amlinellir yn Atodiad A, i ddefnyddwyr hanfodol oedd cyflwyno'r newid yn raddol dros gyfnod o 9 mis o fis Ebrill i fis Ionawr 2014 a chyflwyno'r lwfans 45c y filltir o 1 Medi ymlaen. Byddai hyn yn lleddfu'r effaith ariannol am y flwyddyn gyntaf.

Ar hyn o bryd, mae defnyddwyr achlysurol yn cael 52.2c y filltir a chynigiwyd y byddai hyn yn gostwng i 45c ar 1 Medi 2013, gan leddfu unwaith eto ar yr effaith ym mlwyddyn 1. Ar hyn o bryd, mae defnyddwyr achlysurol yn talu treth ar y gwahaniaeth rhwng 45c a 52.2c. Y gostyngiad gwirioneddol ar gyfartaledd milltiroedd busnes o 600 milltir y flwyddyn yw £28.80.

Fodd bynnag, gan fod y cynigion wedi'u gwrthod, bydd angen i'r Cyngor ymgynghori'n uniongyrchol bellach â'r sawl sy'n cael eu heffeithio er mwyn cael eu cytundeb i'r newidiadau arfaethedig a rhoi rhybudd iddynt amrywio'u contract cyflogaeth presennol. Os na ddeuir i gytundeb gyda'r unigolyn, bydd angen terfynu eu contract cyflogaeth presennol a rhoi contract cyflogaeth newydd i'r unigolion hynny sy'n cynnwys yr amodau a thelerau diwygiedig.

Bydd hyn yn debygol o gymryd rhwng 4-6 mis i gwblhau ac felly nid oes gan yr awdurdod ddewis ond i weithredu'r gwaith o dynnu'r lwfans Defnyddiwr Car Hanfodol ymaith a chyflwyno'r gyfradd milltiroedd o 45c a fydd yn dod i rym yn syth ar ddiwedd y cyfnod o rybudd neu ni fydd yn cyflawni'r arbedion angenrheidiol yn y flwyddyn ariannol hon.

Fodd bynnag, gan gydnabod yr hinsawdd economaidd anodd ac mewn ymateb i gais a wnaed gan y Cabinet Anffurfiol, bydd yr awdurdod yn rhoi diogelwch o 12 mis i'r gweithwyr hynny sydd wrthi'n ennill llai na'r cyflog byw (£7.45 yr awr ar hyn o bryd).

Bydd amrywiad y contract hefyd yn cynnwys newidiadau i'r cyfnod talu lwfans Aflonyddwch a fydd yn cael ei ostwng o 4 blynedd i 1 flwyddyn a'r Cyfnod Diogelu Tâl a fydd yn cael ei ostwng o 3 blynedd i 1 flwyddyn.

Fel rhan o'r trafodaethau gwreiddiol, cynigiodd y rheolwyr petai'r Undebau Llafur yn fodlon argymell y newidiadau a mynd i Gytundeb ar y Cyd, byddai ymrwymiad yn cael ei roi i beidio ag adolygu amodau a thelerau pellach cyn mis Ebrill 2015 fel arwydd o ewyllys da. Gan nad yw'r undebau llafur wedi cefnogi'r awdurdod yn y bleidlais hon, bydd yr ymrwymiad i beidio ag adolygu unrhyw amodau a thelerau pellach at ddiben cyflawni arbedion effeithlonrwydd gweithlu corfforaethol tan fis Ebrill 2015 bellach yn cael ei dynnu'n ôl.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae hyn yn hanfodol i'r awdurdod fodloni ei arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol.

## 6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r effaith ar wasanaethau'n dibynnu ar ba arbedion effeithlonrwydd a gytunir wrth symud ymlaen. Ni ddylai costau ychwanegol fod yn gysylltiedig â'r rhain gan mai arbedion effeithlonrwydd ydynt. Fodd bynnag, os na chyflawnir effeithlonrwydd y gweithlu hwn y flwyddyn nesaf, bydd yr effaith ar wasanaethau'n sylweddol oherwydd bydd angen gwneud

penderfyniad anodd sy'n golygu naill ai edrych ar dorri gwasanaethau'r rheng flaen neu wneud diswyddiadau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fod ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad.

Mae copi o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ynghlwm. Atodiad **B**

## 8. Pa ymgyngoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Cafwyd cyfarfodydd misol rheolaidd gyda'r Cyd Undebau Llafur a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2010. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi cymryd rhan yn llawn ar hyd y broses. Rhoddwyd gwybod i'r Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad ar hyd y broses. Mae cyllid wedi treulio amser sylweddol gyda'r undebau llafur yn mynd trwy'r cefndir a'r sefyllfa ariannol. Diweddarwyd y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ar y trafodaethau ar hyd cyfnod y trafodaethau. (Cyng. Joan Buttlerfield, Cyng. Meirick Davies, Cyng. Huw Hilditch-Roberts, Cyng. Martyn Holland, Cyng Colin Hughes, a'r Cyng. David Simmons.)
Cyflwynwyd adroddiad hefyd i'r Cabinet Anffurfiol ar 11 Mawrth 2013.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd y cyngor yn parhau i wynebu heriau ariannol arwyddocaol dros y blynyddoedd i ddod gan fod gostyngiadau i gyllid sector cyhoeddus ledled y DU yn debygol o barhau yn y tymor canol. Roedd y gyllideb a gyflwynwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn ddiweddar yn awgrymu gostyngiadau pellach i gyllid Llywodraeth Cymru sy'n debygol o leihau cyllid llywodraeth leol o ganlyniad. Mae bron yn anochel y bydd hyn yn golygu y bydd angen targedau arbed uwch gan gynghorau lleol yng Nghymru nag sydd wedi eu cynnwys mewn cyllidebau a chynlluniau ariannol tymor canol. Mae cyllideb 2013/14 eisoes yn tybio y bydd £200k mewn arbedion yn cael eu cyflawni trwy'r arbedion arfaethedig gyda £300k pellach yn 2014/15. Os na chaiff yr arbedion hyn eu cyflawni, yna bydd angen i'r gwasanaethau ganfod arbedion ychwanegol ar ben y £6m maent eisoes yn delio â hwy dros y cyfnod 2 flynedd mewn hinsawdd ariannol sy'n gwaethygu

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni eu gwneud i'w lleihau?

Bydd y risgiau'n dibynnu ar a ellir cytuno arbedion effeithlonrwydd ac os oes cytundeb, byddant yn amrywio o un gwasanaeth i'r llall. Os na chyflawnir arbedion trwy'r cynnig hwn, bydd arbedion a thoriadau llai derbyniol yn ofynnol a allai gyflwyno gwahanol risgiau i'r Cyngor.

Bydd y risg y bydd cyflawniad y gwasanaeth yn cael ei effeithio os na all staff deithio i'w gwaith yn cael ei liniaru trwy'r trefniadau canlynol. Bydd staff sy'n methu darparu eu car eu hunain ar gyfer milltiroedd gwaith yn cael mynediad i gerbydau cronfa lle bo hynny'n bosibl. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i ddefnyddwyr milltiroedd hynod uchel i gael car cronfa dynodedig. Bydd y trefniadau diogelu a amlinellir yn yr adroddiad yn helpu i liniaru'r risg hwn hefyd.

## 11. Y Grym i wneud y Penderfyniad

Y grym i wneud y penderfyniad yw Atodlen 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972